

**CYFARFOD: PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

**DYDDIAD: 9 CHWEFROR 2023**

**TEITL: ARBEDION 2023/24**

**PWRPAS: Cyflwyno gwybodaeth am y broses o sefydlu Cynllun Arbedion 2023/24 - 2024/25 fel cyfraniad at fwllch cyllidol y Cyngor**

**GWEITHREDIAD: Craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet ystyried cymeradwyo'r Cynllun Arbedion yn ei gyfarfod ar Chwefror y 14eg**

**AELOD CABINET: Y CYNGHORYDD DYFRIG SIENCYN**

**SWYDDOG CYSWLLT: DAFYDD GIBBARD, PRIF WEITHREDWR**

- 1.** Yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig er mwyn dod i gasgliad os yw'n Gynllun Arbedion synhwyrol fel un cyfraniad tuag at y bwlch cyllidol sy'n ein hwynebu dros y ddwy flynedd nesa.
- 2.** Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried priodoldeb y broses o adnabod yr arbedion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad.
- 3.** Nid rôl y Pwyllgor yw mynegi barn ar beth ddylai maint yr arbedion fod neu rinweddau'r cynigion unigol sy'n cael ei hargymell fel arbedion, ond yn hytrach sicrhau fod y Cabinet yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

4. Yn gryno, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni ei hun fod y wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad yma yn ddigonol i alluogi'r Cabinet wneud penderfyniad ar y Cynllun Arbedion yn ei gyfanrwydd.
5. Er enghraifft
  - Ydi'r Pwyllgor yn fodlon fod y broses o adnabod yr arbedion a nodir yn Atodiad A yn rhesymol?
  - Ydi'r Pwyllgor yn fodlon fod camau rhesymol, o dan amgylchiadau heriol iawn, wedi eu cymryd i lunio'r Cynllun Arbedion?
  - Oes modd cael sicrwydd fod yr arbedion a gynigir yn rhesymol a chyraeddadwy neu ydi'r adroddiad yn delio gyda rhagdybiaethau mewn ffordd synhwyrol?
  - Ydi'r adroddiad yn glir am oblygiadau y penderfyniad a geisir?
  - Ydi'r risgiau yn eglur?

**Atodiad:**

Cynllun Arbedion 2023/24 – 2024/25 (adroddiad Cabinet 14/02/2023)